Minutes of **Planning and Amenities Committee** held at Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 18 February 2019 at** 6.30pm.

**PRESENT :-** His Worship the Mayor Councillor John Wynn Jones
The Deputy Mayor Councillor John Wyn Williams

| Councillors | | | |
|---|---|---|---|
| | G O Roberts Chairman | Ifan James | Nigel Pickavance |
| | L Day | Keith Jones | Gareth Roberts |
| | D Fearnley | C King | Mair Rowlands |
| | Derek Hainge | J M Martin | Elin Walker Jones |
| | O Hurcum | Enid Parry | H Wyn Jones |

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

**194/18 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Medwyn Hughes, Salik Rahman and Luke Tugwell.

**195/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillor Derek Hainge declared an interest in Item 199/18 Planning Applications – C19/0078/11/LL.

**196/18 URGENT BUSINESS**

The Town Clerk reported on the following matters of interest:-

i) Forthcoming Events confirmed
28 April – Bangor Spring Food Festival and 10 May – The Moveable Feast (at the Pier)
ii) A request from Gwynedd Council and Local Members to partake in a partnership to maintain the Penrhyn Park Playarea – this was referred to the Community Assets Sub-group for consideration; and
iii) The City Council's submission to the Japanese Embassy for the acquisition of Japanese Sakura Cherry Trees had been successful. The proposed areas was Ashley Jones Fields, planting to commence in November 2019.
iv) His Worship the Mayor reported that there would be various events celebrating St. David's Day including a City Centre March & Parade on Saturday 2 March.

**197/18 NORTH WALES POLICE**

Members received a presentation by Inspector Jon Aspinall who gave an overview of policing issues in the City which included:-

- Crimes committed and prosecutions
- Drugs and anti-social behaviour
- Crime figures
- Closure Orders
- Pub/Shop Watch Schemes
- Public Spaces Order
- Alcohol and begging
- Reductions in Staff and PCSO's

There then followed a question and answer session which concluded the presentation.

Members showed their appreciation for Inspector Aspinall's visit.

**198/18 CCTV CAMERAS**

The Committee welcomed Mr Steve Edwards, Operations Manager from Gwynedd Council who gave a presentation on the proposed replacement of Gwynedd's CCTV camera system. This would evolve from a Pan, Tilt & Zoom (PTZ) analogue system to a fixed modern WiFi HD Camera unmanned system.

He explained the reasons behind the proposals and Gwynedd Council's decision which would mean a saving in staffing.

However for the City Council this would mean an increase in contribution from the current £12K to a proposed £41K p.a.

Members expressed concern about the increased annual commitment and that there had not been any consultation as to where the new cameras would be placed in order to be more helpful in tackling crime. Also as it was not a live system that it would only be used retrospectively for evidence.

Councillor Elin Walker Jones and Owen Hurcum left the meeting at this point.

**RESOLVED**: that a small group be established to look at the detail and in the meantime, Mr Edwards to provide more information on camera location, financial detail once the tenders were received and proposed timescales in order that a plan could be formulated should the City Council take up this offer of CCTV provision.

**199/18 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C19/0041/11/LL** Conversion of floors above shop for 6 self-contained residential units together with associated alterations. 246 – 250 High Street. **No objections, however, some concern was expressed about arrangements for storage of waste and recycling both for the shops and the proposed six residential units.**

**C19/0057/11/LL** Extension and alterations to existing dwelling. 65 Penrhos Road. **No objections.**

**C19/0074/11/CR** Application for internal alterations (including erection of new partition wall with glazed door and replacement of pendant lights). Antelope Inn, Ffordd Caergybi, Treborth. **No objections.**

**C19/0075/11/R4** Erection of security fencing and gates. Porthdy Pont Menai, Treborth. **No objection in principle, however, a better design was suggested for it to be more in keeping with the existing building and architecture around the iconic bridge.**

**C19/0077/11/CR** Erection of security fencing and gates. Porthdy Pont Menai, Treborth. **No objection in principle, however, a better design was suggested for it to be more in keeping with the existing building and architecture around the iconic bridge.**

**C19/0078/11/LL** Provision of 38 residential units (including a mixture of open market units and affordable units), parking accomodation and access. Former Bangor City Social Club, Deiniol Road. **No objections in principle, however, grave concern was expressed about the design (height, apearance and in keeping with the area), the access to the site could cause traffic movement problems and was not particularly safe for highway users and pedestrians. Also parking for residents and visitors was not adequate and should be looked at.**

**C19/0124/11/LL** Extension and alterations. 32 Trefonwys. **No objection.**

**C18/ C18/0796/11/R3** Proposed diversion, Public Footpath No 25 in Bangor. Ysgol Garnedd School, Penrhosgarnedd. **No objection.**

**200/18 HIGHWAY MATTERS**

Proposed Parking Restriction – Arfon Area No 5. 2019. **Noted**.

**201/18 LICENSING MATTERS**

Premises Licence – Lower Floor, Ambassador Hall, rear of 236 High Street. - **Noted**.

The Meeting closed at 8.20 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun 18 Chwefror 2019** am 6.30 y.h.

**PRESENNOL :-** Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wynn Jones
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd John Wyn Williams

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Cynghorwyr | G O Roberts Cadeirydd | Ifan James | Nigel Pickavance |
| | L Day | Keith Jones | Gareth Roberts |
| | D Fearnley | C King | Mair Rowlands |
| | Derek Hainge | J M Martin | Elin Walker Jones |
| | O Hurcum | Enid Parry | H Wyn Jones |

Swyddog :- Mr Ian Jones, Clerc y Dref

**194/18 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Medwyn Hughes, Salik Rahman a Luke Tugwell.

**195/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd Derek Hainge yn Eitem 199/18 Ceisiadau Cynllunio - C19/0078/11/LL.

**196/18 MATERION BRYS**

Adroddodd Clerc y Dref ar y materion o ddiddordeb canlynol:-

i) Cadarnhau Digwyddiadau
28 Ebrill – Gŵyl Fwyd y Gwanwyn Bangor a 10 Mai – *The Moveable Feast* (ar y Pier)
ii) Cais gan Gyngor Gwynedd a'r Aelodau Lleol i gymryd rhan mewn partneriaeth i gynnal lle chwarae Parc Penrhyn – cyfeiriwyd hwn at ystyriaeth yr Is-grŵp Asedau Cymunedol; a
iii) Roedd cais Cyngor i Ddinas i Lysgenhadaeth Japan i brynu Coed Ceirios Sakura Japaneaidd wedi bod yn llwyddiannus. Y llefydd a gynigiwyd oedd Caeau Ashley Jones, a'r plannu i ddechrau ym mis Tachwedd 2019
iv) Adroddodd Ei Deilyngdod y Maer y byddai amryw o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gan gynnwys Gorymdaith drwy Ganol y Ddinas ddydd Sadwrn 2 Mawrth.

**197/18 HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad gan yr Arolygydd Jon Aspinall a roddodd drosolwg o waith yr heddlu yn y Ddinas, yn cynnwys:-

- Troseddau a gyflawnwyd ac erlyniadau
- Cyffuriau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Ffigyrau trosedd
- Gorchmynion Cau
- Cynlluniau Gwylio Tafarndai/Siopau
- Gorchymyn Mannau Agored Cyhoeddus
- Alcohol a chardota
- Gostyngiadau mewn Staff a PCSOs

Yna cafwyd sesiwn holi ac ateb cyn dod â'r cyflwyniad i ben.

Dangosodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad am ymweliad yr Arolygydd Aspinall.

**198/18 CAMERÂU TELEDU CYLCH CYFYNG**

Croesawodd y Pwyllgor Mr Steve Edwards, Rheolwr Gweithrediadau o Gyngor Gwynedd a roddodd gyflwyniad ar y cynnig i newid system camerâu CCTV Gwynedd. Byddai hyn yn golygu newid o system analog PTZ i system fodern Ddi-wifr sefydlog di-griw.

Eglurodd y rhesymau dros y cynigion a dywedodd y byddai penderfyniad Cyngor Gwynedd yn golygu arbediad mewn staffio.

Fodd bynnag, i Gyngor y Ddinas byddai hyn yn golygu cynnydd yn ei gyfraniad o'r £12K presennol i £41K y flwyddyn.

Mynegodd yr Aelodau eu pryder am y cynnydd yn yr ymrwymiad blynyddol. Dywedwyd na fu ymgynghoriad ar lle y dylid gosod y camerâu newydd er mwyn iddynt fod yn fwy defnyddiol i daclo tor-cyfraith. Hefyd, gan nad oedd yn system fyw, dim ond er mwyn cael tystiolaeth ôl-weithredol y gallent gael eu defnyddio.

Gadawodd y Cynghorwyr Elin Walker Jones ac Owen Hurcum y cyfarfod yn y fan hon.

**PENDERFYNWYD**: sefydlu grŵp bychan i edrych ar y manylion ac yn y cyfamser, gofyn i Mr Edwards am ragor o wybodaeth am leoliad y camerâu, a'r manylion ariannol wedi derbyn y tendrau, ynghyd â'r amserlen arfaethedig er mwyn gallu ffurfio cynllun pe bai Cyngor y Ddinas yn cytuno i'r ddarpariaeth CCTV yma.

**199/18 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C19/0041/11/LL** Addasu'r lloriau uwchben y siop ar gyfer 6 uned breswyl hunangynhaliol ynghyd â newidiadau cysylltiedig. 246 - 250 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad, fodd bynnag, mynegwyd peth pryder am y trefniadau ar gyfer storio gwastraff ac ailgylchu, i'r siopau ac i'r chwe uned breswyl a gynigir.**

**C19/0057/11/LL** Estyniad ac addasiadau i annedd presennol. 65 Ffordd Penrhos. **Dim gwrthwynebiad.**

**C19/0074/11/CR** Cais ar gyfer newidiadau mewnol (yn cynnwys codi wal bared gyda drws gwydrog a rhoi goleuadau crog newydd). Antelope Inn, Ffordd Caergybi, Treborth. **Dim gwrthwynebiad.**

**C19/0075/11/R4** Codi ffens ddiogelwch ynghyd â giatiau. Porthdy Pont Menai, Treborth. **Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, fodd bynnag, awgrymwyd cael dyluniad gwell fel ei bod yn fwy cydnaws â'r adeilad presennol a'r bensaernïaeth o amgylch y bont enwog.**

**C19/0077/11/CR** Codi ffens ddiogelwch ynghyd â giatiau. Porthdy Pont Menai, Treborth. **Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, fodd bynnag, awgrymwyd cael dyluniad gwell fel ei bod yn fwy cydnaws â'r adeilad presennol a'r bensaernïaeth o amgylch y bont enwog.**

**C19/0078/11/LL** Darparu 38 uned breswyl (gan gynnwys cymysgedd o unedau'r farchnad agored ac unedau fforddiadwy), mannau parcio a mynedfa. Hen Glwb Cymdeithasol Dinas Bangor. **Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, fodd bynnag, mynegwyd pryder difrifol am y cynllun (uchder, ymddangosiad a chyd-fynd â'r ardal), gallai'r fynedfa i'r safle achosi problemau traffig ac nid oedd yn arbennig o ddiogel i ddefnyddwyr y ffordd na cherddwyr. Hefyd nid oedd digon o lefydd parcio i'r preswylwyr ac ymwelwyr a dylid cael golwg ar hynny.**

**C19/0124/11/LL** Estyniad a newidiadau. 32 Trefonwys. **Dim gwrthwynebiad.**

**C18/0796/11/R3** Bwriad i wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Rhif 25 ym Mangor. Ysgol y Garnedd, Penrhosgarnedd.
**Dim gwrthwynebiad.**

**200/18 MATERION PRIFFYRDD**

Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig – Ardal Arfon Rhif 5 2019. **Nodwyd**

**201/18 MATERION TRWYDDEDU**

Trwydded Eiddo – Llawr Is, Ambassador Hall, cefn 236 High Street. **Nodwyd**

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.20 y.h.